Cyfarfod at Wraidd y Mater

y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cynrychiolaeth BAME

Microsoft Teams

17 Chwefror 2021

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ) (CADEIRYDD)	Prif Weithredwr
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Kathryn Chadd (KC)	Pennaeth Adnoddau a Gwobrwyo
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Jennifer Gilmer (JG)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Martyn Jones (MJ)	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Emma Mills (EM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Llesiant Pobl
Yr Uwch-arolygydd, Tim Morgan (TM)	Pennaeth Partneriaethau a Diogelu
Caroline Smart (CS)	Gwasanaethau Corfforaethol – Rheoli Corfforaethol
Mark Stevenson (MS)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Nodwyd ymddiheuriadau gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emma Wools.
2.	**Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Uwchgyfeirio Rhagfyr 2020**	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod uwchgyfeirio blaenorol yn gofnod gwir. Penderfynwyd y dylid ymdrin â'r camau gweithredu a'r argymhellion y tu allan i'r cyfarfod.
3.	**Trosolwg o sefyllfa gyfredol Heddlu De Cymru o ran cael gweithlu cynrychioliadol**	3.1 Rhoddodd MS drosolwg i'r bwrdd o'r sefyllfa gyfredol a'r heriau mewn perthynas â chael gweithlu cynrychioliadol. Cyfeiriodd MS at Dîm y Gweithlu Cynrychioliadol a'r hyn a gyflawnwyd ers sefydlu'r tîm yn 2015. Tynnodd sylw at yr heriau cyfredol hefyd, a oedd yn cynnwys lefelau is o gynrychiolaeth am fod llawer o swyddogion yn ymddeol. Cyfeiriodd MS at heriau eraill, gan gynnwys y ffaith nad oedd y niferoedd diweddar mewn prosesau recriwtio mor gynrychioliadol ag y dylent fod, er bod llawer o ddiddordeb. Nododd pa mor bwysig yw cefnogi ymgeiswyr drwy'r broses o ddenu, recriwtio a chadw swyddogion. Nododd MS hefyd fod yr heddlu yn gwybod nad yw ei gynrychiolaeth yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n gwasanaethu ynddynt. 3.2 Yn ogystal, cyfeiriodd y trosolwg at y nifer isel o ymgeiswyr yn ystod yr ymgyrchoedd recriwtio diwethaf. Roedd MS yn teimlo bod hyn o ganlyniad i'r effaith roedd COVID-19 wedi'i chael drwy darfu ar weithgareddau traddodiadol i ymgysylltu ag ymgeiswyr, eu denu a'u cefnogi. 3.3 Cyfeiriodd MS at y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud gan Dîm y Gweithlu Cynrychioliadol a phwysigrwydd rhannu hyn â gweddill y sefydliad. Nododd fod yr heddlu yn ailddatblygu map ffordd tair blynedd ar gyfer y tîm fel rhan o'r Strategaeth Pobl ehangach. Nododd MS hefyd fod yr heddlu yn adolygu adnoddau presennol ac yn datblygu nifer o weithdai i werthuso'r hyn sy'n gweithio a'r hyn y mae angen ei newid neu ei wella. 3.4 Cyfeiriodd MS at strategaethau cyfathrebu ar gyfer recriwtio a'r ffordd y gallai'r heddlu gynnig pontydd i bobl o gefndiroedd difreintiedig a'u hannog i wneud cais am rolau ym maes plismona. Tynnodd sylw at bwysigrwydd datblygu dull cydgysylltiedig gydag ysgolion er mwyn cynnig lleoliadau gwaith a diwrnodau agored i annog pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i ymuno â'r sefydliad. 3.5 Gorffennodd MS drwy nodi mai'r unig ffordd o gael gweithlu cynrychioliadol oedd drwy ennill ymddiriedaeth a hyder cymunedau a sicrhau bod gwaith yn parhau i ddileu safbwyntiau ystrydebol am yr heddlu.

4.	Data ar Gynrychiolaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol	4.1 Rhoddodd KC drosolwg o'r data ar gynrychiolaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn Heddlu De Cymru a chyfeiriodd yn benodol at y gostyngiad yn nifer a chanran yr ymgeiswyr BAME o gymharu â nifer yr ymgeiswyr a benodwyd yn llwyddiannus ers 2015. Nododd KC fod yr heddlu wedi gweld y nifer mwyaf o ymgeiswyr yn ystod 2017/18 a'i bod yn teimlo bod y gostyngiad mewn niferoedd o ganlyniad i faterion a wynebir gan yr heddlu, a oedd yn cynnwys symud i gynllun prentisiaeth. Dywedodd KC tra bo'r broses Tystysgrif mewn Gwybodaeth am Blismona (CKP) ar waith, gallai'r heddlu reoli nifer y bobl a oedd yn gallu gwneud cais. 4.2 Holodd HJJ faint o bobl a oedd wedi cael eu recriwtio i gyd ers i'r cynllun prentisiaeth ddechrau o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd MS yn teimlo bod y niferoedd yn debyg, ond roedd o'r farn ei bod yn anodd cymharu am fod llwybrau gwahanol, gan gynnwys y cynllun prentisiaeth a'r rhaglen recriwtio. Holodd MS a oedd yr heddlu yn denu amrywiaeth eang debyg o ymgeiswyr o gymunedau BAME â'r rhai o gymunedau nad ydynt yn BAME. Nododd hefyd fod hyn yn rhywbeth a gaiff ei ystyried yn rheolaidd mewn nifer o weithdai, ynghyd â'r heriau sy'n gysylltiedig â denu nifer ehangach o ymgeiswyr BAME. Rhannodd TM yr heriau sy'n gysylltiedig â'r ffaith nad oes gan gymunedau BAME y cysylltiadau a'r rhwydweithiau cywir i'w hysbysu am ymgyrchoedd recriwtio, er enghraifft. Dywedodd fod hyn yn un o'r agweddau allweddol ar waith parhaus i sefydlu'r un cysylltiadau a chyfleoedd â'r rhai sydd gan gymunedau eraill. 4.3 Nododd KC fod yr heddlu yn ystyried gweithio gyda chwmnïau cyfryngau i graffu ar eu negeseuon er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn targedu'r garfan fwriadedig o ymgeiswyr. Hefyd, cyfeiriodd KC at gynnydd a nododd ei bod yn teimlo bod angen i'r heddlu wella ei gynrychiolaeth weledol, mewn swyddi Uwch-arolygwyr er enghraifft. 4.4 Holodd HJJ a ystyriwyd creu cynllun mynediad uniongyrchol ar gyfer Heddlu De Cymru. Nododd KC fod hyn wedi cael ei ystyried yn flaenorol ond bod yr heddlu yn teimlo nad oedd yn briodol ar y pryd. Dywedodd hefyd fod yr heddlu wedi ceisio ehangu prosesau recriwtio ar gyfer rhengoedd Prif Swyddogion ac uwch drwy eu hysbysebu mewn heddluoedd eraill gyda'r nod o ddenu cynulleidfa fwy amrywiol. 4.5 Gofynnodd SG beth roedd yr heddlu yn ei wneud i atal cylch caeedig yn y broses datblygu gyrfa, lle roedd pobl nad oeddent yn dod o gefndiroedd BAME yn cael mwy o gyfleoedd i hyfforddi/mentora rhai o gefndiroedd BAME oherwydd cyfrannau'r gweithlu, tra bo strategaeth pobl yr heddlu yn rhoi pwyslais ar ddangos tystiolaeth o gymwyseddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn piler Arweinyddiaeth a Diwylliant y strategaeth. Defnyddiodd SG ganfyddiadau'r ymchwil at wraidd y mater fel enghraifft, gan dynnu sylw at y pryderon a rannwyd gan nifer o gyfranogwyr sef bod rhai pobl yn fwy awyddus i fod yn Hyrwyddwyr Datblygu er mwyn casglu tystiolaeth i fyrddau dyrchafu, yn hytrach na gwneud gwahaniaeth i brofiadau ymgeiswyr BAME. Cydnabu MS bwysigrwydd ceisio annog aelodau BAME o'r sefydliad i ddod yn hyfforddwyr ac yn fentoriaid, gan dynnu sylw at y gwaith roedd ACC Travis yn ei wneud gyda chyswllt o Orllewin Mersia, a oedd yn ymwneud â chynllunio rhaglen helaeth o hyfforddiant i swyddogion BAME presennol o ran cynnydd.
5.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Cynrychiolaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol –	5.1 Gwnaeth LJ wahodd HJJ i gyflwyno adroddiad tîm y Comisiynydd ar ganfyddiadau'r ymchwil i Gynrychiolaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd yr adroddiad yn cynnig cipolwg ar y mentrau gweithlu cynrychioliadol sydd ar waith yn yr heddlu ar hyn o bryd, gan gynnwys barn staff a swyddogion ethnig leiafrifol a gafodd eu recriwtio drwy'r mentrau hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at grwpiau ffocws amrywiol a gynhaliwyd gan dîm y Comisiynydd er mwyn deall barn hyrwyddwyr datblygu, y tîm Recriwtio BAME cyfredol ac aelodau o

	Canfyddiadau Ymchwil	Gymdeithas Heddlu Du De Cymru. * 5.2 Rhannodd HJJ y prif bwyntiau o ganfyddiadau'r grwpiau ffocws mewn perthynas â recriwtio, cadw a chynnydd. Nododd HJJ, er bod gan bobl brofiadau gwahanol o ymuno â'r heddlu a gweithio i'r heddlu, roedd eu barn yn debyg pan ofynnwyd iddynt am amrywiaeth o faterion. Er enghraifft, bod y rhaglen gyfredol yn rhoi gormod o bwyslais ar rolau swyddogion yr heddlu ar draul canolbwyntio ar recriwtio pobl BAME i rolau staff yr heddlu, lle roedd hyd yn oed fwy o dangynrychiolaeth. 5.3 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau a rannwyd mewn perthynas â'r cynllun hyrwyddwyr datblygu, gan gynnwys profiadau amrywiol yr Hyrwyddwyr Datblygu, a phobl a oedd wedi cael cymorth gan Hyrwyddwr. Roedd llawer yn teimlo y byddent yn cael budd o fwy o gyfarwyddyd mewn perthynas â hyfforddiant, prosesau Adnoddau Dynol, cwblhau ceisiadau recriwtio, a chynghori eraill ar ffyrdd o gyflwyno eu hunain yn dda mewn cyfweliadau. Hefyd, nododd HJJ fod y rhai a oedd wedi cael eu cefnogi gan Hyrwyddwyr Datblygu yn teimlo eu bod wedi cael profiad cadarnhaol i ddechrau, ond ei bod yn ymddangos bod y cymorth a'r brwdfrydedd a gawsant yn ystod y cam recriwtio cychwynnol yn lleihau ar ôl iddynt gael eu penodi. Nododd HJJ fod teimlad bod staff yr heddlu yn arbennig yn cael eu hanghofio yn aml mewn perthynas â chymorth cynnydd mewnol hefyd a bod yr heddlu felly'n colli cyfleoedd i weld pobl BAME yn gweithio mewn rolau staff yr heddlu ar raddau uwch. 5.4 Cyfeiriodd HJJ at safbwyntiau cyfranogwyr mewn perthynas â chyfathrebu a marchnata. Dywedodd HJJ fod y rhan fwyaf yn ymwybodol o nodau cyffredinol mentrau'r gweithlu cynrychioliadol, ond bod llai yn gwybod pam yr oedd angen y buddsoddiad hwn ac, yn benodol, yr hyn a ystyriwyd yn gamau gweithredu cadarnhaol. Roedd llawer yn teimlo y byddent yn cael mwy o fudd o ragor o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth yr heddlu cyfan mewn perthynas â'r pwynt hwn. Tynnodd HJJ sylw at ddarnau eraill o adborth, er enghraifft bod angen buddsoddi mwy mewn negeseuon a gweithgareddau ymgysylltu cadarnhaol am wasanaethau'r heddlu mewn cymunedau. 5.5 Gorffennodd HJJ drwy nodi pwyntiau eraill i'w hystyried, megis defnyddio'r acronym BAME wrth adrodd am lwyddiant y rhaglen. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod y data a'r geiriad yn nodi'n union yr hyn a olygwyd, h.y. nid oedd yn briodol dweud bod 3% o swyddogion a recriwtiwyd o gefndiroedd 'BAME' os nad oedd unrhyw bobl Ddu wedi cael eu recriwtio. Nododd HJJ hefyd fod dadl genedlaethol yn mynd rhagddi ynghylch defnyddio'r term BAME fel gair, a chydnabuwyd bod llawer o bobl ethnig leiafrifol yn credu ei fod yn cyfrannu at deimlad o 'aralleiddio' gan grŵp Gwyn mwyafrifol. Roedd angen sicrhau bod y term yn cael ei ddefnyddio'n sensitif ac yn gywir yn yr heddlu felly. Roedd HJJ hefyd yn teimlo y dylid dadansoddi ethnigrwydd, a rhywedd, yn fwy er mwyn tynnu sylw at feysydd lle mae prosesau recriwtio, cadw a chynnydd yn llwyddiannus a lle mae angen gwneud mwy o waith. 5.6 Diolchodd MJ i HJJ am y gwaith ac am fanylder ei hadroddiad. Roedd hefyd yn teimlo bod y term BAME yn bwnc llosg ac yn cytuno bod

		angen newid diwylliant yn y sefydliad er mwyn gwella a datblygu dealltwriaeth pobl o'r mentrau gweithlu cynrychioliadol hollbwysig.
6.	Gohebiaeth am y Gweithlu Cynrychioliadol	6.1 Trafodwyd gohebiaeth yn ystod y cyflwyniad data yn eitem 4.
7.	Casgliadau ac Eitemau i'w Huwchgyfeirio	7.1 Crynhodd LJ y pwyntiau allweddol a drafodwyd yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys pwysigrwydd cael dull gweithredu ar y cyd rhwng yr heddlu a thîm y Comisiynydd mewn perthynas â chyfeiriad strategol rhaglen y gweithlu cynrychioliadol. Cyfeiriodd LJ at agenda eang a heriau'r maes hwn gan nodi ei fod yn teimlo y dylid trefnu cyfarfodydd pellach i adolygu cynnydd a chanolbwyntio ar bynciau penodol. Nododd LJ fod adolygu'r dangosyddion allweddol, drwy'r strwythur llywodraethu, yn bwysig er mwyn deall sut roedd yr heddlu a thîm y Comisiynydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y maes hwn. 7.2 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am eu hymchwil a'u mewnbwn yn y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.
8.	Unrhyw Fater Arall	8.1 Cyfeiriodd MS at y bwrdd llywodraethu newydd a fyddai ar waith gan nodi ei fod yn teimlo y byddai tîm y Comisiynydd yn cael cyfleoedd amrywiol i uwchgyfeirio themâu o ganlyniadau thematig a thrafodaethau'r cyfarfodydd hyn. 8.2 Diolchodd SG i aelodau'r tîm Recriwtio BAME am eu hamser a'u mewnbwn yn ystod ei gwaith ymchwil a pharatoi ar gyfer y cyfarfod hwn.

Tabl Camau Gweithredu

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu
17/02/2021	Cynrychiolaeth BAME	Dylai'r heddlu a thîm y Comisiynydd gydweithio i adolygu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn a chytuno ar ddull gweithredu ar y cyd ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
17/02/2021	Cynrychiolaeth BAME	LJ i drefnu cyfarfod gydag ACC Travis a HJJ i drafod gwaith cynnydd gweithredu cadarnhaol sy'n cael ei ddatblygu.
17/02/2021	Cynrychiolaeth BAME	Yr heddlu i rannu amserlen o'i waith parhaus mewn perthynas â chael gweithlu cynrychioliadol.
17/02/2021	Cynrychiolaeth BAME	Yr heddlu i rannu adborth o'r sesiynau 'Beth am Siarad am Hil/Let's Talk About Race' ac i hyn gael ei adolygu mewn cyfarfod ar wahân.